# Protocol a Phecyn Cymorth ar gyfer Gweithio gyda Rhieni a Chynhalwyr sy'n Camddefnyddio Sylweddau

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg | Dyddiad: Hydref 2020 | Statws: Cymeradwywyd |
| Awdur: PPG | Fersiwn blaenorol: Ebrill 2019 | Dyddiad adolygu: Hydref 2020 |

## 1. DIBEN

Diben y ddogfen yma yw helpu asiantaethau yn eu rolau amrywiol i nodi dangosyddion achosion o gamddefnyddio sylweddau a deall effaith hyn ar y gofal mae modd ei roi i'r plentyn yn y groth ac ar ôl ei eni. Mae'n fan cychwyn i ddeall yn llawn sefyllfa'r teulu wrth gydnabod cryfderau ac anawsterau ffordd o fyw'r teulu. Mae hefyd yn nodi'r risg i'r plentyn yn y groth/ar ôl ei eni ac yn nodi'r pwyntiau lle gallai fod angen atgyfeirio i asiantaethau eraill.

Dydy'r offeryn asesu risg sydd wedi'i ddarparu yma ddim yn nodi'r ffordd orau o gael gwybodaeth, gan fod hwn yn fater o farn broffesiynol i raddau helaeth. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â gweithdrefnau asesu asiantaethau unigol.

## 2. DIFFINIAD

Mae camddefnyddio sylweddau yn cynnwys camddefnyddio cyffuriau, sydd ym marn gweithwyr proffesiynol neu aelodau o'r teulu, yn cael effaith andwyol nid yn unig ar iechyd ac ymddygiad y rhieni, ond ar fywydau eu plant hefyd, ac yfed alcohol i'r graddau y mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater oherwydd ei fod yn effeithio'n ddifrifol ar ymddygiad y sawl sy'n yfed dro ar ôl tro.

Gall sylweddau a gaiff eu camddefnyddio gynnwys: (gall y rhestr yma newid)

- Alcohol
- Cyffuriau anghyfreithlon
- Meddyginiaeth ar bresgripsiwn
- Sylweddau anweddol
- Meddyginiaethau mae modd eu prynu dros y cownter
- Defnyddio mwy nag un cyffur ar yr un pryd (unrhyw un o'r uchod)
- Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS)

***Noder: Mae Atodiad 2 yn cyfeirio at ddefnyddio cyffuriau (Fframwaith a Thablau Asesu'r Biwro Cenedlaethol y Plant). Mae defnyddio alcohol yn rhan o'r defnydd yma.***

## 3. RHIENI/CYNHALWYR SY'N CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Dydy'r ffaith bod rhieni neu gynhalwyr yn defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau ddim o reidrwydd yn golygu bod plant yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, er ei bod yn holl bwysig bod gweithwyr yn cydnabod bod y grŵp yma'n risg uchel. Pan fo amheuon ynghylch camddefnyddio sylweddau, dylid adolygu'r wybodaeth am y teulu sydd eisoes ar gael ac wedi'i chofnodi. Gall ymddygiad neu ddigwyddiadau eraill yn y gorffennol na fyddai wedi nodi camddefnyddio sylweddau wrth eu hystyried ar eu pennau'u hunain bellach ymddangos yn fwy pwysig a pherthnasol.

Os ydych chi wedi nodi bod camddefnyddio sylweddau o bosibl yn effeithio ar allu teulu i gynnal eu bywyd bob dydd, mae modd gofyn y cwestiynau canlynol i geisio llywio asesiad o amgylchiadau'r plentyn a'r teulu:

1. **Gallu Rhieni**

   - Pwy sy'n camddefnyddio sylweddau a beth yw eu rôl yn y teulu?
   - A oes gyda'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau anghenion cymhleth?
   - A yw'r rhieni/cynhalwyr yn derbyn triniaeth a/ neu'n derbyn cymorth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd?
   - Sut mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar ansawdd y gofal y mae'r plentyn/plant yn ei dderbyn, cyn neu ar ôl ei eni/eu geni?
   - A oes disgwyl i'r plant ymgymryd â rolau/ tasgau amhriodol?
   - Pa fathau o gamddefnyddio sylweddau y mae'r plentyn yn y groth/plant yn dod i gysylltiad â nhw?
   - A oes rhywun arall sydd ddim yn defnyddio/camddefnyddio sylweddau yn cefnogi'r plant?
   - A oes hanes o droseddu perthnasol?
   - A oes hanes o gam-drin domestig?
   - A yw'r rhieni/cynhalwyr yn fodlon ac yn gallu derbyn unrhyw gefnogaeth a gaiff ei chynnig?

2. **Ffactorau Amgylcheddol**

   - A yw'r teulu'n teimlo'n ynysig neu eu bod yn cael eu difrïo yn eu cymuned?
   - Beth yw'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r uned deuluol?
   - Beth yw effaith ariannol camddefnyddio sylweddau ar y teulu?
   - Ble mae unrhyw alcohol, cyffuriau/offer cymryd cyffuriau yn cael eu cadw? Cael gwared ar gyffuriau/rhannu nodwyddau, ac ati
   - Beth yw'r sefyllfa o ran llety? h.y. yr eiddo cyfredol, pa mor aml maen nhw'n symud tŷ, amodau gartref

3. **Darparu anghenion pob plentyn – Dolen i'r asesiad risg perthnasol ar gyfer esgeulustod.**
   **(Mewn achosion o'r plentyn yn y groth: asesu cydymffurfiaeth y fam â gofal cyn-geni mewn perthynas â monitro lles y ffetws, e.e. apwyntiadau cyn-geni, sganiau, asesiadau risg, ac ati.)**

   - A oes anghenion heb eu diwallu?
   - A oes anghenion corfforol heb eu diwallu?
   - A oes anghenion emosiynol heb eu diwallu?
   - A oes anghenion addysgol heb eu diwallu?
   - Gyda phwy mae'r plentyn yn siarad os ydyn nhw'n poeni neu os oes rhywbeth wedi effeithio arnyn nhw?
   - Pa ffiniau sydd ar waith ar gyfer y plentyn?
     h.y. goruchwyliaeth, ffiniau, diogelwch.

- Sut mae'r plentyn yn cyflwyno'i hun i eraill yn gymdeithasol, e.e. hylendid, rhyngweithio
- A oes unrhyw ffactorau ynghylch cydnerthedd wedi'u nodi?

## 4. LLWYBR I RIENI/CYNHALWYR SY'N CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Mae'r Siart Lif Llwybr (Atodiad 2) yn nodi'r camau allweddol ar gyfer gweithredu pan fydd rhiant/cynhaliwr sy'n camddefnyddio sylweddau yn feichiog a/neu â phlentyn ifanc.

Y sbardunau ar gyfer camau gweithredu yw:

- Datgelu beichiogrwydd
- 16 wythnos
- 30 wythnos
- Geni'r plentyn a rhyddhau o'r ysbyty
- Ar ôl rhyddhau

Mae'r siart yn gymorth gweledol sy'n cynnwys manylion y prosesau a chyfrifoldeb pob asiantaeth/gweithiwr proffesiynol yn rhan o'r protocol yma.

Dydy'r Llwybr ddim yn golygu bod rhaid glynu wrth y dyddiadau yma a dylai unrhyw weithiwr proffesiynol sydd â phryderon ar unrhyw adeg drafod y pryderon hynny â'u Rheolwr Llinell.

## 5. OFFERYN ASESU RISG AMLASIANTAETH

Mae modd i bob asiantaeth ddefnyddio'r offeryn asesu amlasiantaeth pan fydd rhiant/cynhaliwr yn datgelu gwybodaeth neu pan fydd y gweithiwr proffesiynol o'r farn bod yr unigolyn dan sylw yn camddefnyddio sylweddau. Mae'n bwysig ymgynghori ag asiantaethau eraill wrth gwblhau'r offeryn asesu risg. Os yw offeryn asesu risg eisoes wedi'i gwblhau neu wrthi'n cael ei gwblhau gan asiantaeth arall, mae disgwyl y bydd asiantaethau'n cydweithredu i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn cael ei chynnwys mewn modd amserol (amserlenni adolygu). Bydd y Gwasanaethau Mamolaeth yn cwblhau'r asesiad risg yma pan fydd y sawl sy'n camddefnyddio sylweddau wedi cyrraedd wythnos 16 o'i beichiogrwydd neu cyn gynted ag y bydd yn gofyn am ofal mamolaeth ar ôl y cyfnod (hyd y beichiogrwydd) yma. Nodwch - rhaid i hyd y beichiogrwydd yma gysylltu ag amseriad yr atgyfeiriad C1. Mae disgwyl cytundeb ar hyn yn y cyfarfod canllawiau cyn-geni ar 26/1/18.
Rhaid rhannu'r asesiad risg gorffenedig a'r holl asiantaethau allweddol sy'n rhan o'r broses.

**Rhannu Gwybodaeth:**

Rhaid i asiantaethau gael caniatâd rhieni i rannu gwybodaeth. Os na cheir caniatâd rhieni, bydd raid i weithwyr proffesiynol benderfynu a yw lefel y risg sy'n bresennol yn golygu y dylid rhannu'r wybodaeth heb ganiatâd. Os oes rhaid, dylai gweithwyr proffesiynol geisio cyngor rheolwyr/gweithwyr proffesiynol wedi'u henwi ym maes

amddiffyn plant i gael cyngor a chefnogaeth. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw asiantaethau/gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses yma.

**Adolygu'r Asesiad:**

Does dim rhaid glynu wrth ddyddiadau adolygu'r asesiad risg. Serch hynny, efallai y bydd raid ystyried y cylchoedd adolygu y mae pob asiantaeth yn eu nodi. Mewn asiantaethau lle does dim cylch adolygu penodol, efallai y bydd angen defnyddio barn broffesiynol i nodi newid, naill ai fel digwyddiadau unigol neu gyda'i gilydd, ac adolygu'r ddogfen yn unol â hynny. Mae'n bwysig cofnodi dyddiad yr adolygiad wrth ei gynnal.

**Asesu a Goruchwylio:**

Dylai asiantaethau ddefnyddio'r offeryn yma yn sail i drafodaeth yn ystod eu prosesau goruchwylio.

**Dogfennau Ategol:**

Fframwaith a Thablau Asesu'r Biwro Plant Cenedlaethol (Atodiad 2)

## 6. CASGLIAD:

Mae'r Protocol yma'n darparu sail i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol asesu'r effaith a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ar fabanod yn y groth ac ar ôl eu geni. Wrth ymwneud â rhieni/cynhalwyr sy'n camddefnyddio sylweddau, mae'n hanfodol bod staff unigol yn rhannu eu pryderon â'u rheolwyr. Mae'n bosibl byddan nhw'n gallu cynnig persbectif gwahanol ar faterion neu atgyfnerthu pryderon. Gall rheolwyr hefyd roi'r cymorth perthnasol i'r unigolyn. Gall rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill hefyd helpu i esbonio meysydd pryder amlwg a darparu rhagor o wybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gamddefnyddio sylweddau a rhianta ar gael yma www.substancemisuserct.co.uk neu ar wefan y Bwrdd Diogelu: www.ctmsb.co.uk

Dyma ofyn i gyrff y tu allan i Rondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr ofyn am ganiatâd gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg os ydyn nhw'n bwriadu defnyddio'r ddogfen yma. Fydd caniatâd ddim yn cael ei wrthod heb reswm teilwng.

**OFFERYN ASESU RISG Atodiad 1**

**ENW:** **DYDDIAD GENI:** **CYFEIRIAD:**

**PLENTYN YN Y GROTH:** **Gravida Para Dyddiad Geni Disgwyliedig:** **Cyfnod beichiogi adeg yr Asesiad:** **o wythnosau**

| **Dyddiad cynnal:** | **Wedi'i gynnal gan:** | **Dyddiad Adolygu:** |
|---|---|---|

| **Asesiad Risg ar gyfer niwed sylweddol o ganlyniad i rieni/cynhalwyr yn camddefnyddio sylweddau** | **Ffynonellau Gwybodaeth:** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **MEINI PRAWF: Rhianta** | **A yw hyn yn Ffactor Risg** | **Tystiolaeth** | **A yw hyn yn Ffactor Diogelu** | **Tystiolaeth** |
| 1. Pwy sy'n camddefnyddio sylweddau a beth yw eu rôl gyda'r plant yn y teulu? | Risg | | Diogelu | |
| Pa sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio?<br><br>Dull<br>Pa mor aml? | Risg | | Diogelu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2. A oes gyda'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau anghenion iechyd cymhleth?<br><br>Oherwydd hanes corfforol, meddyliol neu obstetrig wael?<br>Os oes, disgrifiwch | Risg | | Diogelu | |
| 3. Ar hyn o bryd ydy'r rhieni/cynhalwyr yn derbyn triniaeth a/neu'r cymorth sy'n cael ei gynnig?<br>Os ydyn, disgrifiwch | Risg | | Diogelu | |
| 4. Sut mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar ansawdd gofal y plant?<br>Disgrifiwch<br><br>Ar gyfer plentyn yn y groth, lefel gydymffurfio'r fam â gofal cyn-geni | Risg | | Diogelu | |
| 5. A oes disgwyl i'r plant ymgymryd â rolau/tasgau amhriodol?<br>Os oes, beth ydyn nhw? | Risg | | Diogelu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. Pa fathau o gamddefnyddio sylweddau y mae'r plentyn yn dod i gysylltiad â nhw? | Risg | | Diogelu | |
| 7. A oes rhywun arall sydd ddim yn camddefnyddio sylweddau sy'n cefnogi'r plant? Os oes, nodwch pwy, ble maen nhw'n byw a'r math o gefnogaeth sy'n cael ei darparu? | Risg | | Diogelu | |
| 8. A oes hanes o droseddu perthnasol? Os oes, disgrifiwch | Risg | | Diogelu | |
| 9. A oes hanes o gam-drin domestig? Os oes, disgrifiwch | Risg | | Diogelu | |
| 10. A yw'r rhieni/cynhalwyr yn fodlon ac yn gallu derbyn unrhyw gefnogaeth a gaiff ei chynnig? | Risg | | Diogelu | |

**O ystyried yr holl risgiau a'r ffactorau diogelu, pa mor debygol yw'r risg o niwed sylweddol i'r plentyn?**

Rhowch gylch o amgylch ANNHEBYGOL TEBYGOL TEBYGOL IAWN

**A fyddai canlyniadau'r niwed i'r plentyn yn:**

Rhowch gylch o amgylch YSGAFN CANOLIG DIFRIFOL

| **MEINI PRAWF: Amgylcheddol Ffactorau** | **A yw hyn yn ffactor risg?** | **Tystiolaeth** | **A yw hwn yn ffactor diogelu?** | **Tystiolaeth** |
|---|---|---|---|---|
| 1. A yw'r teulu'n teimlo'n ynysig neu eu bod yn cael eu difrïo yn eu cymuned?<br><br>Os ydyn, disgrifiwch | Risg | | Diogelu | |
| 2. Beth yw'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r uned deuluol? | Risg | | Diogelu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. Beth yw effaith ariannol camddefnyddio sylweddau ar y teulu? | Risg | | Diogelu | |
| 4. Ble mae unrhyw alcohol, cyffuriau/offer cymryd cyffuriau yn cael eu cadw? Cael gwared ar gyffuriau/rhannu nodwyddau, ac ati | Risg | | Diogelu | |
| 5. Beth yw'r sefyllfa o ran llety? h.y. yr eiddo cyfredol, pa mor aml maen nhw'n symud tŷ, amodau gartref<br><br>Ar gyfer plentyn yn y groth: paratoi at eni'r babi | Risg | | Diogelu | |

**O ystyried yr holl risgiau a'r ffactorau diogelu, pa mor debygol yw'r risg o niwed sylweddol i'r plentyn?**

Rhowch gylch o amgylch ANNHEBYGOL TEBYGOL TEBYGOL IAWN

**A fyddai canlyniadau'r niwed i'r plentyn yn:**

Rhowch gylch o amgylch YSGAFN CANOLIG DIFRIFOL

**OS DYMA'R BEICHIOGRWYDD CYNTAF, EWCH I 'MESURAU DIOGELU I LEIHAU RISG', Tudalen 8**

| **MEINI PRAWF: Anghenion y Plentyn** **(yn unigol ar gyfer pob plentyn)** | **A yw hyn yn ffactor risg?** | **Tystiolaeth** | **A yw hwn yn ffactor diogelu?** | **Tystiolaeth** |
|---|---|---|---|---|
| 1. A oes anghenion corfforol heb eu diwallu? | Risg | | Diogelu | |
| 2. A oes anghenion emosiynol heb eu diwallu? | Risg | | Diogelu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. A oes anghenion addysgol heb eu diwallu? | Risg | | Diogelu | |
| 4. Gyda phwy mae'r plentyn yn siarad os ydyn nhw'n poeni neu os oes rhywbeth wedi effeithio arnyn nhw? | Risg | | Diogelu | |
| 5. Pa ffiniau sydd ar waith i'r plentyn? h.y. goruchwyliaeth, ffiniau o ran ymddygiad, diogelwch | Risg | | Diogelu | |
| 6. Sut mae'r plentyn yn cyflwyno'i hun i eraill yn gymdeithasol? e.e. hylendid, rhyngweithio | Risg | | Diogelu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. A oes unrhyw ffactorau ynghylch cydnerthedd wedi'u nodi? h.y. nodweddion cynhenid, dylanwad ei amgylchedd ar y plentyn. Os oes, disgrifiwch. | **Risg** | | Diogelu | |

**O ystyried yr holl risgiau a'r ffactorau diogelu, pa mor debygol yw'r risg o niwed sylweddol i'r plentyn?**

Rhowch gylch o amgylch    ANNHEBYGOL    TEBYGOL    TEBYGOL IAWN

**A fyddai canlyniadau'r niwed i'r plentyn yn:**

Rhowch gylch o amgylch    YSGAFN    CANOLIG    DIFRIFOL

| **MEINI PRAWF: Mesurau Diogelu i Leihau Risg** | **Sylwadau/Tystiolaeth** |
|---|---|
| 1. Y mesurau diogelu sydd eu hangen i leihau/dileu risg:<br><br>**Plentyn yn y groth:**<br>Cydymffurfio â chynllun gofal cyn-geni<br>Paratoi at eni'r babi<br>Trefniadau cysgu diogel, ac ati | |

| 2. Ymarferoldeb gweithredu'r mesurau diogelu sydd wedi'u nodi**:** | |
|---|---|

**Argymhelliad**

| Rhowch gylch o amgylch | Dim anghenion cymorth | Cyfeirio at Wasanaethau Cymorth | Cyfeirio at Wasanaethau i Blant (Gofal a Chymorth) | Cyfeirio at Wasanaethau i Blant (Diogelu Plant) |
|---|---|---|---|---|

| **Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad:** |
|---|
| |

| **Canlyniad yr asesiad a'r camau gweithredu wedi'u cymryd:** |
|---|
| |

**Llofnodion: ……………………………………………**

**Enwau: ……………………………………………….**

**Teitlau swyddi: ……………………………………………**

**Dyddiad: ……………………………………………….**

## Camddefnyddio Sylweddau: Siart Lif Amlddisgyblaeth

**Datgeliad Cychwynnol i:**

**Gwasanaethau Iechyd** Cyfweliad i drefnu apwyntiad cyn-geni (Cynllun ar gyfer gofal cyn-geni)
Cyfeirio at asiantaethau Camddefnyddio Sylweddau.
Os oes pryderon wedi bod yn y gorffennol/plant blaenorol wedi cael eu symud - Atgyfeirio i'r Gwasanaethau i Blant.
Caniatâd i rannu gwybodaeth?
Cwestiynau Cyffredin 1.

**Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau** Cyfeirio at ofal cyn-geni.
Os oes pryderon wedi bod yn y gorffennol/plant blaenorol wedi cael eu symud - Atgyfeirio i'r Gwasanaethau i Blant.
Derbyn gwybodaeth atgyfeirio a chyfnewid a blaenoriaethu ar y rhestr aros.

**Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau** Cyfeirio at ofal cyn-geni.
Cyfeirio at asiantaethau Camddefnyddio Sylweddau.
Os oes pryderon wedi bod yn y gorffennol/plant blaenorol wedi cael eu symud, derbyn yr wybodaeth a nodi'n gyswllt.
Cynnal proses 2 - gweler Cwestiynau Cyffredin.

| Lefel Ymyrraeth | | 16 Wythnos |
|---|---|---|
| Cynllun Iechyd Amlddisgyblaeth | → | Bydwraig yn cysylltu ar ôl geni, asesiad risg amlddisgyblaeth ac asesiad beichiogrwydd ychwanegol wedi'i gwblhau. |
| Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth | → | Penderfyniad i gyfeirio at y Gwasanaethau i Blant? |
| Amddiffyn Plant | → | |

**Trefnu apwyntiadau'n hwyr neu bryderon – Cwestiynau Cyffredin 1**

| | 20 Wythnos | 30 Wythnos | 32 Wythnos |
|---|---|---|---|
| ↗ | Cyfarfod cynllunio amlddisgyblaeth wedi'i gydlynu gan y Fydwraig i gynnwys Ymwelydd Iechyd a'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau | Cwblhau'r cynllun geni (ar gyfer cyswllt 32 wythnos) | |
| **NA**<br>**IE** ↗ | Atgyfeirio yn Blentyn sydd Angen Gofal a Chymorth Cyfarfod Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth wedi'i drefnu a'i gynnal gan y Gwasanaethau i Blant. | Cyfarfod Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth dilynol a phob 6 wythnos wedi hynny. | |
| ↘ | Atgyfeirio'n fater Amddiffyn Plant. Caiff atgyfeiriad ei godi a Chyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant Amlasiantaeth ei drefnu a'i gynnal.<br>O ganlyniad, gallai olygu'r penderfyniadau yma:<br>▪ Ymchwiliad Amddiffyn Plant sy'n arwain at gynhadledd achos, yn enwedig i famau sy'n geni'r plentyn yn gynnar neu caiff achos llys ei ragweld<br>▪ Bydd angen cyfarfod strategaeth ddilynol yn ddiweddarach oherwydd diffyg tystiolaeth ddigonol i drefnu a chynnal cynhadledd achos<br>▪ Dim materion Amddiffyn Plant pellach ond rhaid trefnu a chynnal cyfarfod cynllunio amlasiantaeth (Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth) a dilyn y gweithdrefnau hynny. | Rhaid cynnal Cyfarfod Strategaeth ar y pwynt yma - Cynhadledd bosibl ar ôl 32 wythnos.<br><br>Os oes cynllun cyn-geni i'w gofrestru erbyn y pwynt yma - dilynwch y gweithdrefnau penodol a chytundeb gan y gynhadledd.<br><br>(Rhaid cwblhau asesiadau craidd erbyn y pwynt yma yn absenoldeb trefnu apwyntiadau hwyr). | Cynhadledd Amddiffyn Plant Cyn-geni |

| GENI | CYN RHYDDHAU | ADEG Y GENI NEU WEDYN |
|---|---|---|
| Cytuno ar gynllun geni a'i weithredu | Bydwraig i roi gwybod am eni'r plentyn i weithwyr iechyd proffesiynol eraill a chynnydd y cynllun. Unrhyw bryderon - gweler Cwestiynau Cyffredin 1. | |
| Gweithredu cynllun Plant sydd Angen Gofal a Chymorth. | Cyfarfod ar ôl rhyddhau yn fater o drefn. | Os ceir Syndrom Ymatal â Sylweddau Newyddenedigol neu ddatgelu camddefnyddio sylweddau am y tro cyntaf, ceisiwch gyngor arbenigol ac ystyried atgyfeirio at y Gwasanaethau i Blant. Unrhyw ddatgeliadau newydd - bydd Ymwelydd Iechyd yn cynnal asesiad risg amlddisgyblaeth. |
| Gweithredu Cynllun Amddiffyn Plant | Cyfarfod Grŵp Craidd yn fater o drefn. | Asesiad risg amlddisgyblaeth yn cael ei gynnal gan unrhyw asiantaeth arall y caiff ei gyflwyno iddi drwy asesiad asiantaeth benodol, ynghyd ag offeryn amlasiantaeth (gweler y canllawiau). Os oes pryderon - Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os nad oes unrhyw bryderon - Cyfeirio at asiantaethau perthnasol am gefnogaeth barhaus. |

**ATODIAD 2** – *Fframwaith a Thablau Asesu Biwro Cenedlaethol y Plant* (SAESNEG YN UNIG)

*Applying the Assessment Framework*

- Effect of prenatal exposure drugs
- Subsequent special health needs as a result of above
- Access or exposure to drugs/equipment
- Effect on school attendance and ability to learn
- Impact on quality of attachment(s) and feeling valued
- Attitudes to drug use and offending behaviour
- Experience of loss/bereavement
- Sibling relationships and sibling drug use
- Other caring relationships and 'lifelines'
- Secrecy, stigma and social exclusion
- Impact on friendships
- Level of caring for self, parents and siblings




- Details of drug use and impact on parental health/behaviour/mood
- Physical availability to child and impairment of ability to provide care
- Emotional availability to child
- Strategies to protect child from impact of drugs
- Role of drugs within parental relationship/partnership
- Consistency and reliability
- Priorities – drugs or child?
- Messages to child about drug use and offending behaviour
- Previous parenting capacity

- Past drug treatment/ engagement
- Offending behaviour and convictions
- Who knows about drug use? and implications for wider family relationships
- Extended family able to act as carers
- Adequacy of material resources – money and housing
- Home is exposed to risky adults or activities
- Community attitudes and stigma
- Support network outside the home

| Anghenion Datblygiad y Plentyn: | | | |
|---|---|---|---|
| **Dimensiwn** | **Ffactor** | **Rhesymeg** | **Ffynonellau Gwybodaeth** |
| **Iechyd** | Effaith dod i gysylltiad â chyffuriau ar y beichiogrwydd | Gall dod i gysylltiad â chyffuriau yn ystod y beichiogrwydd gael effaith ar iechyd y plentyn cyn ac ar ôl ei eni. Mae'n bwysig ystyried a yw'r fam wedi mynychu cyfarfodydd gofal cyn-geni ac wedi dilyn cyngor i leihau'r risg bosibl i'r babi. Gall y babi ddioddef o syndrom diddyfnu adeg ei eni sy'n gofyn am driniaeth mewn uned gofal arbennig. Gall hyn yn ei dro effeithio ar y berthynas â'r fam. | Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Obstetregydd<br>Bydwraig<br>Pediatrydd<br>Uned Gofal Arbennig<br>Gofal Sylfaenol |
| | Anghenion iechyd arbennig dilynol o ganlyniad i'r uchod | Efallai y bydd angen gofal neu driniaeth olynol ar y plentyn ar gyfer unrhyw anghenion iechyd arbennig. Efallai fydd y rhain ddim yn amlwg ar unwaith a byddan nhw ond yn dod i'r amlwg wrth i'r plentyn ddatblygu. Bydd yn bwysig ystyried anghenion y plentyn a gallu'r rhieni i'w diwallu. | Pediatrydd<br>Staff Bydwreigiaeth a'r Uned Newydd-anedig<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol |
| | Mynediad at/dod i gysylltiad â chyffuriau/ offer | Mae cyffuriau a nodwyddau yn berygl difrifol bosibl i blant ifainc. Mae nifer o fabanod yn marw bob blwyddyn am fod eu rhieni yn cymryd Methadon. Mae'n hanfodol sefydlu pa gyffuriau sy'n cael eu defnyddio, p'un a yw nodwyddau'n cael eu defnyddio ac a ydyn nhw'n cael eu cadw'n ddiogel. | Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol<br>Rhieni |
| **Addysgol** | Effaith ar fynychu'r ysgol a'r gallu i ddysgu | Gall fod effaith andwyol ar y plentyn yn mynychu'r ysgol a'r feithrinfa os yw'r rhieni dan bwysau o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau. Fel arall, mae'n bosibl bydd plant yn mynychu ond yn cael eu rhwystro rhag dysgu oherwydd problemau gartref. I blant eraill, mae'r ysgol yn ffactor hanfodol wrth ddatblygu hunan-barch a chydnerthedd. Efallai y bydd yn anodd iddyn nhw siarad am eu rhieni'n defnyddio cyffuriau. | Ysgol/Meithrinfa<br>Nyrs yr Ysgol<br>Plentyn |
| **Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol** | Effaith ar ansawdd y berthynas a theimlad o gael eu gwerthfawrogi | Er mwyn datblygu perthynas ddiogel gyda'r rheiny sy'n rhoi gofal, mae angen iddyn nhw ymateb i'r plentyn yn gyson. Mae angen i rieni hefyd roi sylw i wneud i'r plentyn deimlo ei fod yn cael ei garu a'i fod yn bwysig. Efallai y bydd problem gyda'r broses yma os yw defnyddio cyffuriau yn cael effaith ar hwyliau ac ymddygiad rhieni, ac os ydyn nhw ar gael i'r plentyn. | Plentyn<br>Ysgol/Meithrinfa<br>Y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diffyg profiad/ Profedigaeth | Mae plant rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau yn wynebu risg uwch o golled, profedigaeth a chael eu gwahanu o'u rhieni. Gall rhiant farw neu ddatblygu problemau iechyd difrifol. Gallan nhw dreulio amser yn yr ysbyty neu'r carchar. Oherwydd bod y teulu dan straen, mae risg uwch hefyd o rieni'n gwahanu neu'r teulu'n chwalu. Mae'n bwysig archwilio'r mathau yma o golled - neu ofn colled yn y dyfodol - a deall yr effaith ar y plentyn. | Plentyn<br>Rhieni<br>Teulu<br>CAMHS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hunaniaeth | Agweddau tuag at ddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad troseddol | Efallai bod plant defnyddwyr cyffuriau yn derbyn negeseuon dryslyd a allai fod yn niweidiol ynghylch pa mor dderbyniol yw defnyddio cyffuriau a throseddu. Gall teyrngarwch tuag at rieni fynd yn groes i addysg am gyffuriau neu'r ffordd mae'r cyfryngau'n portreadu defnyddwyr cyffuriau. Mae hon yn her bosibl i hunaniaeth y plentyn. | Plentyn<br>Rhieni<br>Athro/Athrawon<br>Gwasanaethau Cymorth |
| Perthynas â'r Teulu ac Eraill yn Gymdeithasol | Perthynas â brodyr a chwiorydd a defnyddio cyffuriau gan frodyr a chwiorydd | Mae plant sy'n byw gyda rhieni sy'n defnyddio cyffuriau yn wynebu risg uwch o ddod yn ddefnyddwyr cyffuriau eu hunain. Mae hyn yn golygu y gallai plant fod yn byw gyda brodyr a chwiorydd sy'n defnyddio cyffuriau ac mae yna ddangosyddion y gallen nhw wneud yr un peth yn eu tro. Fel arall, gall fod gyda brodyr a chwiorydd berthynas agos lle maen nhw'n amddiffyn ei gilydd, neu gallen nhw wahanu oddi wrth ei gilydd. | Rhieni<br>Plant<br>Teulu<br>CAMHS<br>Gwasanaethau i Bobl Ifainc<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau |
| | Perthynas ofalgar ag eraill a 'llinellau achub' | Bydd plant â rhwydwaith o bobl y bydd gyda nhw berthynas â nhw, ac oherwydd problemau gyda'r rhieni, gall rhai o'r bobl yma fod "yn lle'r rhieni". Bydd yn bwysig archwilio a deall y rolau sy'n cael eu llenwi gan y bobl yma, ac yn enwedig a oes unrhyw un yn 'llinell achub' i'r plentyn ar adegau o argyfwng. | Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol<br>Rhieni |
| Cyflwyno i Eraill yn Gymdeithasol | Effaith ar gyfeillgarwch | Efallai y bydd plant yn cael eu rhwystro rhag datblygu perthynas gefnogol â'u cymheiriaid oherwydd bod y rhieni'n defnyddio cyffuriau. Efallai byddan nhw'n teimlo cywilydd oherwydd ymddygiad eu rhieni neu efallai caiff plant eraill eu gofyn i beidio â chwarae gyda nhw. Gallai cyfeillgarwch hefyd fod yn ffynhonnell gymorth hanfodol, yn enwedig os ydyn nhw'n gallu rhannu eu profiadau neu os yw cartrefi ffrindiau'n darparu rhyw fath o loches iddyn nhw. | Plant<br>Teuluoedd<br>Ysgol/Meithrinfa<br>Gwasanaethau Cymorth<br>Asiantaethau Tai |
| Sgiliau Hunanofal | Cymdeithasau Rhieni | | Plant<br>Teuluoedd<br>Ysgol/Meithrinfa<br>Gwasanaethau Cymorth<br>Asiantaethau Tai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Stigma Cyfrinachedd ac Allgáu Cymdeithasol | Dydy defnyddio cyffuriau'n ddifrifol ddim yn dderbyniol a gallai defnyddwyr boeni am gael eu barnu eu bod yn rhieni 'gwael'. Gallan nhw hefyd boeni am ganlyniadau niweidiol eraill os yw pobl yn dod i wybod amdanyn nhw'n defnyddio cyffuriau. Yn eu tro, gall plant boeni am gael eu cymryd oddi wrth eu rhieni a derbyn gofal neu boeni am eu rhieni'n wynebu trafferth os ydyn nhw'n siarad amdanyn nhw'n defnyddio cyffuriau. Efallai y bydd defnyddwyr cyffuriau yn cael eu gwrthod gan y gymuned a gall eu plant gael eu hallgáu'n gymdeithasol hefyd. | Plant<br>Teuluoedd<br>Ysgol/Meithrinfa<br>Gwasanaethau Cymorth<br>Asiantaethau Tai | |
| | Lefel cyfrifoldeb gofalu'r unigolyn drosto'i hun, ei rieni a'i frodyr a chwiorydd | Gall plant ddod yn 'gynhalwyr ifanc' oherwydd problemau eu rhieni. Efallai y bydd raid iddyn nhw ysgwyddo cyfrifoldeb gormodol drostyn nhw eu hunain, eu brodyr a chwiorydd a'u rhieni. Gall hyn fod yn amlwg o ran gofal corfforol, ond dylid hefyd ystyried i ba raddau y mae plant hefyd yn teimlo'n gyfrifol yn emosiynol. Er enghraifft, mae rhai plant yn teimlo'n gyfrifol am helpu'u rhieni i fynd i'r afael â'u problem â chyffuriau neu am eu hamddiffyn rhag straen fel eu bod nhw ddim yn dechrau defnyddio eto. | Plant<br>Rhieni<br>Teulu<br>Ysgol<br>Gwasanaethau Cymorth<br>CAMHS | |

**Gallu Rhianta (Nodwch: Mae'n bwysig ystyried pawb sydd â chyfrifoldeb yn rhiant neu ofalu tuag at y plentyn. Mae gwaith ymchwil yn dangos tueddiad i ganolbwyntio ar famau)**

| Dimensiwn | Ffactor | Rhesymeg | Ffynonellau Gwybodaeth |
|---|---|---|---|
| Gofal Sylfaenol<br><br>Sicrhau Diogelwch | Manylion defnyddio cyffuriau a'r effaith ar iechyd/ymddygiad/hwyliau rhieni | Mae'n bwysig deall natur a phatrwm y rhieni o ran defnyddio cyffuriau er mwyn llunio barn am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar rianta (gweler hefyd mewnrwyd Camddefnyddio Sylweddau eich Awdurdod Lleol / eich Gwefan Diogelu Lleol?). Er enghraifft, bydd defnyddio crac yn arwain at ymddygiad anwadal tra bod defnyddio heroin yn fwy tebygol o arwain at y defnyddiwr yn teimlo'n gysglyd. Dylid hefyd ystyried gwybodaeth berthnasol arall, e.e. sut mae cyffuriau'n cael eu caffael a'u hariannu, p'un a oes problemau iechyd cysylltiedig, amseroedd penodol o'r diwrnod pan fydd y rhieni'n debygol o gael eu heffeithio gan gyffuriau. *A oes unrhyw beth "newydd" y mae angen ei gynnwys? Angen ceisio cyngor Arbenigwr. Jean Harrington?* | Rhieni<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Meddyg Teulu<br>Heddlu/ Gwasanaeth Prawf |
| | Argaeledd go iawn y rhiant i'r plentyn a nam ar ei allu i ddarparu gofal | Gall defnyddio cyffuriau leihau gallu rhieni i ddarparu gofal corfforol i'r plentyn. Efallai byddan nhw'n absennol o'r cartref yn ceisio cael arian i brynu cyffuriau neu yn y carchar/ysbyty. Fel arall, gall effeithiau cyffuriau olygu bod dim modd iddyn nhw ymdrin â'r plentyn yn ddiogel neu ymateb i'w amddiffyn rhag perygl. | Rhieni<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol<br>Ysgol/Meithrinfa |
| Cynhesrwydd Emosiynol | Argaeledd emosiynol i'r plentyn | Yn yr un modd, gall y problemau y mae defnyddio cyffuriau yn eu hachosi leihau faint o sylw y gall rhieni ei roi i'w plentyn. Gall eu sylw hefyd fod ar rywbeth neu rywun arall, gallan nhw deimlo'n gysglyd neu mewn tymer gwael, yn dibynnu ar y cyffuriau sy'n cael eu defnyddio, ac yn methu â gwneud i'r plentyn deimlo ei fod yn cael ei garu neu ei werthfawrogi. | Rhieni<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol<br>Ysgol/Meithrinfa |
| Ysgogi | Blaenoriaethau - cyffuriau neu'r plentyn? | Gall defnyddio cyffuriau, yn enwedig os yw'r corff yn dibynnu arnyn nhw, feddiannu bywyd unigolyn - sy'n gadael fawr o le i rianta. Gall hyn arwain at blant yn teimlo bod eu rhieni'n poeni mwy am y cyffuriau na nhw. Wrth asesu gallu rhianta, mae angen ystyried a yw archwiliad o ymddygiad y rhiant yn rhan o'r asesiad. Ydyn nhw'n colli achlysuron yn yr ysgol neu ddathliadau pen-blwydd oherwydd cyffuriau? | Rhieni<br>Plant<br>Ysgol/Meithrinfa |
| | Strategaethau i ddiogelu'r plentyn rhag effaith cyffuriau | Efallai y bydd rhieni'n gwbl effro i'r ffaith fod nam ar eu gallu rhianta a byddan nhw wedi datblygu ffyrdd o wneud iawn am hyn. Er enghraifft, efallai y byddan nhw'n gofyn am gefnogaeth gan y teulu estynedig, neu gyfyngu ar ddefnyddio cyffuriau i'r amseroedd hynny pan fydd y plentyn yn y gwely. | Rhieni<br>Teulu<br>Gwasanaethau Cymorth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cysondeb a dibynadwyedd | Un o'r anawsterau wrth asesu effaith defnyddio cyffuriau yw ei natur gyfnewidiol. Efallai y bydd rhieni yn gariadus y rhan fwyaf o'r amser, ond yn ymosodol neu'n bigog ar ôl defnyddio cyffuriau. Gallan nhw wneud addewidion i'r plentyn pan fyddan nhw'n sefydlog ac yn cael triniaeth ond eu torri pan fyddan nhw'n defnyddio eto. Mae'n bwysig deall yr amrywiadau yma oherwydd y ffordd maen nhw'n tarfu ar blentyn, hynny yw, cael rhieni does dim modd dibynnu arnyn nhw i fod yno ar eu cyfer. | Gwasanaeth<br>Camddefnyddio Sylweddau<br>Rhieni<br>Teulu<br>Plentyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canllawiau a Ffiniau | Rôl cyffuriau yn y berthynas â'r rhieni/yn y bartneriaeth | Mae'n debygol y bydd y ddau riant yn defnyddio cyffuriau i ryw raddau, er bod hyn ddim yn gwbl gyffredin. Os felly, bydd cyffuriau'n chwarae rhan ganolog yn y berthynas. Efallai y bydd un partner yn dibynnu ar y llall i geisio dod o hyd i arian neu gaffael y cyffuriau. Gall hyn fod yn broblem os yw un partner yn cael ei ysgogi i stopio. Waeth bynnag yw'r deinamig, mae angen ei ddeall wrth asesu gallu rhieni i weithio gyda'i gilydd i ofalu am y plant. | Plentyn<br>Rhieni<br>Teulu<br>CAMHS |
| | Negeseuon i'r plentyn am ddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad troseddol | Mae'r rhan fwyaf o ddefnydd cyffuriau yn anghyfreithlon ynddo'i hun ac yn aml mae angen i rieni gymryd rhan mewn gweithgaredd anghyfreithlon er mwyn ei ariannu. Efallai y byddan nhw'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i hyn. Yn y cyfamser, bydd plant yn derbyn negeseuon y tu allan i'r cartref am y ffaith bod ymddygiad o'r fath yn anghywir. Bydd angen i rieni helpu eu plant i wneud synnwyr o'r negeseuon cymysg posibl yma. | Rhieni<br>Plant<br>Ysgol<br>Gwasanaethau i Bobl Ifainc |
| Sefydlogrwydd | Gallu rhianta blaenorol | Dydy cyfran uchel o ddefnyddwyr cyffuriau ddim yn byw gyda'u plant. Mae plant o'r fath hefyd yn fwy tebygol o fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae'n bwysig cael gwybodaeth lawn am les unrhyw blentyn blaenorol yr oedd y naill riant neu'r llall wedi gofalu amdano ac ystyried a oes unrhyw wersi i'w dysgu. | Rhieni<br>Teulu<br>Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill |

| Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol | | | |
|---|---|---|---|
| **Dimensiwn** | **Ffactor** | **Rhesymeg** | **Ffynonellau Gwybodaeth** |
| **Teulu Ehangach Hanes y Teulu a Sut Maen Nhw'n Gweithredu** | Triniaeth/ cysylltiad â chyffuriau yn y gorffennol | [4] Os ydych chi'n asesu'r gallu i rieni newid, bydd yn bwysig ystyried hanes defnyddio cyffuriau'r rhiant a pha mor effeithiol oedd y driniaeth flaenorol. Mae ailddefnyddio yn gyffredin, ond ar y cyfan gall hyn dueddu i nodi a yw'r problemau â chyffuriau'n gwella neu'n gwaethygu. Bydd y ffactorau a ysgogodd y driniaeth, lefel yr ymgysylltu, natur y driniaeth a'r deilliant i gyd yn berthnasol wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd triniaeth yn y dyfodol yn effeithiol. | Rhieni<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Gofal Sylfaenol<br>Y Gwasanaeth Prawf |
| | Ymddygiad troseddol ac euogfarnau | Bydd ymddygiad troseddol wedi dod yn rhan o fywyd llawer o ddefnyddwyr cyffuriau, naill ai'n uniongyrchol trwy feddu ar sylweddau anghyfreithlon neu'u gwerthu, neu'n anuniongyrchol drwy gyflawni trosedd er mwyn cael arian i brynu cyffuriau a'u defnyddio. Efallai byddan nhw'n wynebu cyhuddiadau troseddol newydd neu gyhuddiadau sy'n mynd rhagddynt. Mae'n bwysig gwybod am y mathau o droseddau sy'n cael eu cyflawni ac unrhyw gyhuddiadau sy'n mynd rhagddynt, yn enwedig os yw'n debygol y byddan nhw'n mynd i'r ddalfa, a hynny er mwyn asesu'r effaith debygol ar y plant. Gall plant gael eu niweidio gan rai mathau o ymddygiad troseddol neu gallan nhw fod yn wynebu colli rhieni am eu bod wedi'u dedfrydu i garchar. | Heddlu/Gwasanaeth Prawf<br>Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>Rhieni |
| | Pwy sy'n gwybod bod y rhiant/rhieni'n defnyddio cyffuriau? A'r goblygiadau ar gyfer y berthynas deuluol ehangach | Gan fod unigolion yn cadw eu defnydd o gyffuriau'n gyfrinachol a'r stigma sydd ynghlwm â hyn, mae'n bwysig sefydlu pwy sy'n gwybod amdano. Efallai y bydd rhieni'n meddwl bod neb yn gwybod, yn enwedig eu plant, ond efallai nad dyma'r gwirionedd go iawn. Os na chaiff defnyddio'r cyffuriau ei gydnabod yn agored, mae'n bosibl bydd y plant yn teimlo'n rhwystredig o ran trafod eu profiadau ac o ran ceisio cymorth. Efallai y bydd y teulu a ffrindiau yn ei chael hi'n anodd cynnig cefnogaeth os caiff y broblem ei gwadu. Ar y llaw arall, os yw pawb yn gwybod, efallai bydd y teulu'n cael eu stereoteipio'n annheg. | Teulu<br>Rhieni<br>Plentyn<br>Gwasanaethau cymorth<br>Cynadleddau grŵp i'r teulu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Teulu estynedig yn gallu gweithredu'n gynhalwyr | Mae llawer o deuluoedd yn gallu diwallu anghenion plant oherwydd cefnogaeth gan deulu estynedig. Efallai bydd plant yn byw gydag aelodau o'r teulu drwy'r amser neu rywfaint ohono, neu efallai bydd y teulu'n ymyrryd y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod plant yn cael help ychwanegol yn ymarferol ac yn emosiynol. Serch hynny, mae'n bosibl bydd hyn yn gymhleth, gyda rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu barnu a'u tanseilio. Efallai y bydd plant yn teimlo'n ddryslyd, neu'n cwestiynu eu teyrngarwch o ganlyniad i hyn. Efallai y bydd gyda gwasanaethau ddisgwyliadau afrealistig hefyd ynglŷn â rôl y teulu estynedig ac yn darparu rhywfaint o gefnogaeth annigonol. Wrth asesu, dylid cydnabod y potensial ar gyfer y teulu estynedig, ond dylid hefyd sylweddoli gallai'r gofynion fod yn fawr a gallai hyn achosi i ddeinameg y teulu er gwaeth. | Rhieni<br>Plant<br>Ysgol/Meithrinfa |
| **Y Gymuned Incwm, Cyflogaeth, Sefyllfa o ran Llety'r Teulu Adnoddau Integreiddio Cymdeithasol** | Digonolrwydd adnoddau materol - arian a llety | Mae defnyddio cyffuriau yn faich mawr ar adnoddau'r teulu. Efallai y bydd arian yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth hanfodion fel bwyd i brynu cyffuriau, neu gallai olygu fod dim ar ôl i roi diwrnod allan i'r plant neu'r un safon byw â'u cyfoedion. Gall hyn gael effaith fwy dwys ar blant hŷn a phobl ifainc. Oherwydd eu problem â chyffuriau, efallai fydd dim modd i rieni gynnal a chadw'r cartref neu greu amgylchedd da i'w plant fod ynddo. Mae sefyllfa llety defnyddwyr cyffuriau yn tueddu i fod yn llai sefydlog nag eraill a gallan nhw golli tenantiaethau oherwydd eu problemau. | Rhieni<br>Teulu<br>Gwasanaethau Cymorth |
| | Mae'r cartref yn agored i oedolion neu weithgareddau peryglus | Mae'n bosibl fydd rhieni ddim yn dod i gysylltiad â llawer o bobl ac eithrio defnyddwyr cyffuriau eraill. Os oes raid i rieni droseddu er mwyn cael arian i dalu am eu cyffuriau, efallai y byddan nhw'n gwerthu cyffuriau neu'n dod yn rhan o'r diwydiant rhyw. Gall hyn arwain at ymwelwyr â'r cartref sy'n peri risg i'r plant, neu oedolion sy'n methu â rheoli'r hyn sy'n digwydd yn y cartref.<br>Efallai bydd plant yn dod i gysylltiad â phobl eraill sy'n defnyddio/gwerthu/prynu cyffuriau. Gallen nhw gael eu cyflwyno i ymddygiad sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau o oedran ifanc. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â chartrefi fod yn wyliadwrus a nodi manylion pobl a'u perthynas â'i gilydd. | Asiantaethau tai<br>Heddlu/Gwasanaeth Prawf<br>Cymdogion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Agweddau'r gymuned at stigma | Os yw'r gymuned wedi labelu'r teulu'n ddefnyddwyr cyffuriau, gallan nhw gael eu pardduo a'u gwrthod. Gall hyn ymestyn i'r plant a gallan nhw gael eu brifo am fod y rhieni wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Ar y llaw arall, mae rhai cymunedau'n cynnwys cyfran uchel o ddefnyddwyr cyffuriau ac efallai y bydd y plant yn profi is-ddiwylliant sy'n dod â nhw i gysylltiad â defnyddio cyffuriau fel ffordd o fyw. Mae'n bwysig deall rôl y teulu yn eu cymuned. | Asiantaethau Tai |
| | Rhwydwaith cymorth y tu allan i'r cartref | Efallai y bydd cymunedau, ysgolion a gwasanaethau cymorth yn gallu cefnogi'r plentyn a'i deulu mewn sawl ffordd. Efallai y bydd gydag ysgol sydd â chefnogaeth fugeiliol dda glwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol ac ymyriadau yn yr ysgol sy'n ysgogi'r plentyn ac yn darparu amgylchedd sy'n ei feithrin. Efallai y bydd modd i'r Gwasanaethau i Bobl Ifainc helpu plant i gael ychydig o hwyl a datblygu eu sgiliau a'u hunan-barch. Efallai y bydd gwasanaethau penodol fel grwpiau cynhalwyr ifanc neu gymorth teuluol sy'n helpu'r teulu i adeiladu ar eu cryfderau. Neu efallai y bydd cymdogion neu rieni ffrindiau ysgol yn dangos rhywfaint o empathi ac yn derbyn y teulu. Gall y rhain i gyd helpu'r teulu i ymdopi. | Ysgolion<br>Gwasanaethau i Bobl Ifainc<br>Sector Gwirfoddol<br>Gwasanaethau wedi'u targedu |

**Ffynhonnell: Biwro Cenedlaethol y Plant, 2006**